



Cynllunio Seilwaith
Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bost: wylfa@planninginspectorate.gov.uk

At Horizon Nuclear Power
Er gwybodaeth i bob parti sydd â
diddordeb

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010007

Dyddiad: 4 Ebrill 2019

Annwyl Syr/Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) Adran 89 a Rheolau Cynllunio
Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) - Rheol 9**

**Cais gan Horizon Nuclear Power am Orchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygu ar
gyfer Prosiect Wylfa Newydd**

Newid i'r cais gwreiddiol.

Ysgrifennwn i'ch hysbysu o'r penderfyniad gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) ynghylch cais yr Ymgeisydd i dderbyn newid i'r Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO). Hefyd, ysgrifennwn atoch i ofyn am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r cais diwygiedig.

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi derbyn cais am newid gan yr Ymgeisydd yn ymwneud â mynedfa safle Parcio a Theithio Dalar Hir a gynigir. Cyhoeddwyd y cais fel rhan o ddogfennau Terfyn Amser 7 gyda llythyr cysylltiedig (REP7-001).

Mae'r Ymgeisydd yn nodi ei fod wedi dilyn y weithdrefn a argymhellir yn Nodyn Cyngor 16 yr Arolygiaeth Gynllunio: Sut i ofyn am gael gwneud newid a allai fod yn berthnasol (NC16) er bod yr Ymgeisydd yn mynnu nad yw'r newid a gynigir yn berthnasol mewn gwirionedd.

Perthnasedd y newid a gynigir

Ym marn yr Ymgeisydd, nid yw'r newid a gynigir yn berthnasol. Fodd bynnag, yn y pen draw, yr Awdurdod Archwilio fydd yn penderfynu a yw newid a gynigir yn berthnasol.

Fel y gosodir allan yn NC16:

"2.1 Nid oes diffiniad cyfreithiol o 'berthnasol' ond y profion i'w defnyddio yw p'un ai yw'r newid yn sylweddol neu p'un ai nad yw'r datblygiad sy'n cael ei gynnig nawr yn ei hanfod yr hyn y gwnaed cais amdano yn wreiddiol. Mae'r cyntaf yn gyfystyr â

gwneud newid perthnasol ac – ar yr amod bod digon o amser ar ôl yn y cam Archwilio – gellir ei gynnwys fel rhan o broses Deddf Cynllunio 2008. Mae'r olaf yn gyfystyr â phrosiect gwahanol y byddai angen gwneud cais newydd ar ei gyfer. Mae p'un ai yw newid arfaethedig yn perthyn i'r naill neu'r llall o'r categorïau hyn yn fater o farn gynllunio a all fod yn seiliedig ar feini prawf, gan gynnwys, er enghraifft, a fyddai'r newid yn achosi effaith/effeithiau amgylcheddol sylweddol newydd neu wahanol."

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi asesu cais yr Ymgeisydd yn unol â pharagraffau 109 i 115 Canllaw'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 'Deddf Cynllunio 2008: archwilio ceisiadau am ganiatâd datblygu' a NC16 ac mae wedi dod i'r casgliadau canlynol:

Cais am newid yn ymwneud â safle Parcio a Theithio Dalar Hir a gynigir

i) Newid a gynigir gan yr Ymgeisydd

Mae'r Ymgeisydd yn gofyn am newid mynedfa safle Parcio a Theithio Dalar Hir a gynigir. Mae'r newid a gynigir fel a ganlyn:

- Gwaredu'r gylchfan fewnol wrth fynedfa safle Parcio a Theithio Dalar Hir a gynigir a gosod yn ei lle un fraich o gylchfan bresennol yr A5 ar gyffordd dymbel yr A5/A55 (Cyffordd 4)

Roedd y fynedfa i'r safle Parcio a Theithio, fel y dangosir yn y cais fel y'i cyflwynwyd, yn golygu gwneud newidiadau i Ffordd Llundain a chyflwyno cylchfan newydd. Roedd yr Awdurdod Priffyrdd (Cyngor Sir Ynys Môn – CSYM) o'r farn y byddai'r cynnig yn peryglu gweledd ymlaen wrth nesáu at Ffordd Llundain fel na fyddai wedi cydymffurfio â safonau o'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (DMRB). Byddai'r diwygiad dylunio a gynigir yn osgoi'r angen i wneud newidiadau i Ffordd Llundain a byddai'r rhwydwaith ffyrdd presennol yn aros ar ei ffurf bresennol ac yn cydymffurfio â safonau a osodir allan yn y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd. O ganlyniad, byddai defnyddwyr presennol yn parhau i ddefnyddio'r ffordd ar ei ffurf bresennol. Mae'r Ymgeisydd a CSYM yn ystyried y bydd y defnydd a gynigir o un fraich o'r gylchfan bresennol yn lleihau'r rhyngwyneb rhwng traffig a defnyddwyr difodur sy'n croesi'r gyffordd ddiwygiedig a llai o symudiadau cerbydau adeiladu a gweithredol ar y briffordd bresennol.

Mae'r Ymgeisydd yn rhagweld na fydd y newid a gynigir yn achosi unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol i'r rhai a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol.

ii) Safbwyntiau ar berthnasedd

Trafodwyd y newidiadau a gynigir yn y Gwrandawliadau Materion Penodol ar 7 Ionawr 2019 a 7 Mawrth 2019 ac ni chodwyd unrhyw safbwyntiau gan unrhyw bartïon â buddiant mewn perthynas â pherthnasedd y newid a gynigir ac ni ystyriwyd na fyddai'n bosibl i'r Awdurdod Archwilio archwilio'r newid o fewn yr amserlen statudol.

iii) Safbwynt yr Awdurdod Archwilio ar berthnasedd a derbyn newidiadau

Nid yw'r Awdurdod Archwilio wedi gweld unrhyw dystiolaeth y byddai unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn deillio o'r newid y gofynnwyd amdano, gan gynnwys effeithiau cronol. Nid yw'r Awdurdod Archwilio yn

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>



ystyried ychwaith, o ganlyniad i hyn (a'r newidiadau eraill a gynigiwyd ac a dderbyniwyd i'r archwiliad) nad yw'r datblygiad sy'n cael ei gynnig nawr yn ei hanfod yr hyn y gwnaed cais amdano yn wreiddiol.

Yn unol â hynny, mae'r Awdurdod Archwilio yn cytuno y byddai'r newid i drefniadau mynedfa'r cais ar gyfer Safle Parcio a Theithio Dalar Hir a gynigir yn newid amherthnasol i'r cais ac y dylid ei dderbyn i'w ystyried yn yr archwiliad fel rhan o'r cais.

iv) Materion i'w hystyried fel rhan o'r archwiliad

O sylwadau a wnaed yn y Gwrandawriad Mater Penodol ar 7 Mawrth 2019, mae'n amlwg bod CSYM fel yr Awdurdod Priffyrdd yn ystyried y byddai'r diwygiad a gynigir yn mynd i'r afael â'u pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Byddai'r diwygiad yn arwain at gadw cynllun presennol y ffyrdd, er y byddai mynedfa/allanfa newydd yn cael ei chreu oddi ar y gylchfan bresennol. Serch hynny, bydd effaith y fynedfa/cynllun diwygiedig ar lif traffig a diogelwch ar y ffyrdd yn cael ei hystyried yn llawn gan yr Awdurdod Archwilio fel rhan o'r archwiliad.

v) Ymgynghoriad cyhoeddus

Cynhaliodd yr Ymgeisydd ymgynghoriad â CSYM fel yr Awdurdod Priffyrdd ond ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ehangach gan yr Ymgeisydd. Hefyd, trafodwyd y newid a gynigir yn y Gwrandawriadau Mater Penodol ar 7 Ionawr 2019 a 7 Mawrth 2019. Yn ogystal, bydd cyfle i bartion â buddiant wneud sylwadau ysgrifenedig ar y newid a gynigir erbyn Terfyn Amser 10 (17 Ebrill 2019).

Mae'r Awdurdod Archwilio yn fodlon nad oes angen ymgynghori pellach, er budd tegwch, er mwyn diogelu buddiannau a/neu hysbysu'r sawl a allent gael eu heffeithio gan y newid.

Yn gywir

Frances Fernandes

Frances Fernandes

Aelod Arweiniol y Panel o Arolygwyr Archwilio

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>





National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer 0303 444 5000
Services:
e-mail: wylfa@planninginspectorate.gov.uk

To Horizon Nuclear Power
For information to all Interested Parties

Your Ref:

Our Ref: EN010007

Date: 4 April 2019

Dear Sir/Madam

**Planning Act 2008 (as amended) Section 89 and The Infrastructure Planning
(Examination Procedure) Rules 2010 (as amended) – Rule 9**

**Application by Horizon Nuclear Power for an Order Granting Development
Consent for the Wylfa Newydd Project**

Change to the original application.

We are writing to inform you of the procedural decision made by the Examining Authority (ExA) regarding the Applicant's request to accept a change to the Development Consent Order (DCO) Application. We also write to you to request further information relating to the changed application.

The ExA has received a change request from the Applicant relating to the access to the proposed Dalar Hir Park and Ride. The request was published as part of the Deadline 7 documents also with an accompanying letter (REP7-001).

The Applicant states that it has followed the recommended procedure in the Planning Inspectorates Advice Note 16: How to request a change that might be material (AN16) notwithstanding that the Applicant maintains that the proposed change is in fact non material.

Materiality of the proposed change

In the Applicant's view, the proposed change is not material. It is ultimately however for the ExA to decide whether a proposed change is material.

As set out in AN16:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>



“ 2.1 There is no legal definition of ‘material’ but the tests to apply are whether the change is substantial or whether the development now being proposed is not in substance that which was originally applied for. The former constitutes a material change which – provided there is sufficient time remaining in the Examination stage - can be accommodated as part of the Planning Act 2008 (PA2008) process. The latter constitutes a different project for which a new application would be required. Whether a proposed change falls within either of these categories is a question of planning judgment which may be based on criteria including, for example, whether the change would generate a new or different likely significant environmental effect(s).”

The ExA has assessed the Applicant’s request in line with paragraphs 109 to 115 of DCLG Guidance ‘Planning Act 2008: examination of applications for development consent’ and AN16 and has reached the following conclusions:

Change Request relating to the proposed Dalar Hir Park and Ride

i) Applicant’s proposed change

The Applicant is seeking to make a change to the access to the proposed Park and Ride site at Dalar Hir. The proposed change is as follows:

- Removal of the internal roundabout at the entrance to the proposed site of the Park and Ride at Dalar Hir and replacement with a single arm from the existing A5 roundabout at the A5/A55 dumbbell junction (Junction 4)

The access to the Park and Ride, as shown in the application as submitted, involved changes to London Road and the introduction of a new roundabout. The Highways Authority (Isle of Anglesey County Council – IACC) considered that the proposal would compromise forward visibility on the approach to the London Road such that it would not have complied with standards from the Design Manual for Roads and Bridges (DMRB). The proposed design amendment would obviate the need to make changes to London Road and the existing highway network would remain in its current form and comply with standards set out in DMRB. Consequently, existing users would continue to use the road in its current form. The proposed use of a single arm from the existing roundabout is considered by both the Applicant and the IACC to reduce the interface of traffic with non-motorised users crossing the revised junction and fewer construction and operational vehicle movements on the existing highway.

The Applicant predicts that the proposed change will generate no new or different likely significant environmental effects from those assessed in the Environmental Statement.

ii) Views on materiality

The proposed changes were discussed at the Issue Specific Hearings on 7 January 2019 and 7 March 2019 and no interested parties raised views in relation to the materiality of the proposed change or considered that it would not be possible for the ExA to examine the change within the statutory timetable. .

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>



iii) ExA view on materiality and accepting changes

The ExA has seen no evidence that there would be any new or different likely significant environmental effects resulting from the requested change, including cumulative effects. Neither does the ExA consider that as a result of this (and the other changes proposed and accepted into the examination) the development now being proposed is not in substance that which was originally applied for.

Accordingly, the ExA agrees that the change to the application's access arrangements for the proposed Dalar Hir Park and Ride Site would be a non-material change to the application and that it should be accepted for consideration in the examination as part of the application.

iv) Matters to be considered as part of the examination

From representations made at the Issue Specific Hearing on 7 March 2019, it is evident that IACC as the Highways Authority consider the proposed amendment would address their concerns regarding highway safety. The amendment would result in the retention of the existing road layout, albeit with a new access/egress being created off the existing roundabout. Nonetheless, the effect of the revised access/layout on traffic flows and highway safety will be considered fully by the ExA as part of the examination.

v) Public consultation

The Applicant undertook consultation with IACC as the Highway Authority but no wider public consultation was undertaken by the Applicant. The proposed change was also discussed at the Issue Specific Hearings in 7 January 2019 and 7 March 2019. Interested parties will also have an opportunity to make written representations on the proposed change by Deadline 10 (17 April 2019).

The ExA is satisfied that no further consultation is required, in the interests of fairness, to safeguard the interests of and/ or inform those potentially impacted by the change.

Yours faithfully

Frances Fernandes

Frances Fernandes

Lead Member of the Panel of Examining Inspectors

This communication does not constitute legal advice.
Please view our [Privacy Notice](#) before sending information to the Planning Inspectorate.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>

